Gwarchod Plant

Dewis gyrfaol gwerth chweil a hyblyg

Fel gwarchodwr plant, rydych yn gweithio yn eich cartref, yn gofalu am blant pobl eraill.

Os ydych wrth eich bodd yn gweithio gyda phlant, fe allai fod yn yrfa ddelfrydol i chi.

Ydych chi'n ddigon atebol?

Er mwyn bod yn ofalwr plant llwyddiannus, rhaid i chi feddu ar y nodweddion canlynol;

- Bod yn hygyrch
- Bod yn hyblyg
- Mwynhau gweithio gyda phlant
- Awyddus i redeg eich busnes eich hun
- Wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd
- Yn credu'n angerddol fod pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd

"Rydw i wrth fy modd yn fy swydd fel gwarchodwr plant, a fyddwn i ddim yn ei newid am y byd; cael treulio amser gyda llawer o blant gwych a'u helpu i ddatblygu a thyfu."

Dysgwch fwy

Mae ein briffio byr ar-lein yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i benderfynu ai gwarchod plant yw'r opsiwn gyrfaol iawn i chi. Mae'n trafod beth mae'n ei olygu i fod yn warchodwr plant ac yn edrych ar yr hyfforddiant a phrosesau eraill sy'n rhan o'r broses cofrestru.
>> Er mwyn archebu eich lle ar y cysylltiad Gweminar nesaf cysylltwch â:
pacey.org.uk/
02920 351407

Os ydych chi'n ystyried cofrestru fel gwarchodwr plant, gallwch gael rhagor o wybodaeth gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdod lleol.

Gallwch ffonio tîm blynyddoedd cynnar eich awdurdod lleol, sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth ar gyfer dechrau busnes gwarchod plant.

Neu ewch i'w gwefan a chwilio "dod yn warchodwr plant"

Mae gwybodaeth a chyngor hefyd ar wefan PACEY: **www.pacey.org.uk** os ydych am gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru, yn ogystal ag awgrymiadau a chymeradwyaeth gan rai sydd eisoes yn rhedeg busnes llwyddiannus yn gwarchod plant.

Pwy yw PACEY?

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yw PACEY. Elusen ydym ni, a ffurfiwyd ym 1977, sydd wedi ymroi i gefnogi pawb sy'n gweithio yn y maes gofal plant a blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal a dysgu cynnar o ansawdd uchel i blant a theuluoedd.

Rydym yn darparu hyfforddiant, cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio drwy Gymru a Lloegr.

Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth ac anogaeth i gyfoedion drwy ein rhwydwaith o wirfoddolwyr lleol PACEY ledled y wlad.

Rydym yn cynrychioli safbwyntiau a phrofiadau ymarferwyr ac yn cefnogi eu rôl hanfodol wrth helpu i baratoi plant ar gyfer dyfodol disglair.

PACEY Cymru Face Book

pacey.org.uk

twitter.com/paceychildcare

hello@pacey.org.uk

Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY) is a Company Limited by Guarantee registered in England and Wales Registered Charity No: 295981 Limited Company No: 02060964 PACEY is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority PACEY, Northside House, Third Floor, 69 Tweedy Road, Bromley, Kent, BR1 3WA